Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Dydd Llun, 4 Rhagfyr 2023

## Hysbysiad Cyfarfod

# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

## Dydd Mawrth, 12fed Rhagfyr, 2023 at 3.00 pm,
## Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA a Cyfarfod o Bell

# AGENDA

| Rhif Eitem | Eitem | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | **Croeso ac Ymddiheuriadau** | |
| 2. | **Datganiadau o Fuddiant** | |
| 3. | **Nodi cofnod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2023** | 1 - 6 |
| 4. | **Diweddariad ar Ddysgu Proffesiynol** | |
| 5. | **Diweddariad CYSAG Cymru** | 7 - 10 |
| | 1. Cynhadledd CYSAG Cymru 2024 (Wrecsam) Conference June 2024 (Wrexham) | |
| 6. | **Diwrnod Cofio'r Holocost – (Atgoffa ysgolion)** | |
| 7. | **Aelodaeth y Panel Apwyntiadau/Recriwtio** | 11 - 12 |
| 8. | **Diweddariad gan Estyn** | |
| 9. | **Unrhyw Fater Arall** | |
| 10. | **Dyddiad Cyfarfodydd y Dyfodol** | |
| | 13 Mawrth 2024 am 3pm | |
| | 12 Mehefin 2024 am 3pm | |

**Paul Matthews**

**Prif Weithredwr**

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL
CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:
:

Cynghorwyr Sir::

Martyn Groucutt
Angela Sandles
Louise Brown
Paul Pavia
Jill Bond

**Yn cynrychioli'r Eglwys yng Nghymru (1)**

Rebecca Morteo

**Yn cynrychioli'r Eglwys Gatholig Rufeinig (1)**

Mr. A. Szwagrzak

**Yn cynrychioli Eglwysi Rhydd (4)**
Mrs. S. Gooding
Revd. J Greaves

**Yn cynrychioli Ffydd Bahá'í (1)**

Mrs S. Cave

**Yn cynrychioli'r Ffydd Bwdhaidd (1)**

**Yn cynrychioli'r Ffydd Hindŵ (1)**

Vacancy

**Yn cynrychioli'r Ffydd Iddewig (1)**

Vacancy

**Yn cynrychioli'r Ffydd Sikh (1)**

Vacancy

**Yn cynrychioli'r Ffydd Mwslimaidd (1)**

Maddie Saraireh

**Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon (7)**

Vacancy
Mrs. C. Rhodes

Mrs S. Hamar

**Aelodau a Gyfetholwyd (2)**

Vacancy
Vacancy

**Cynghorydd Addysg Grefyddol**

Hayley Jones (EAS)

Sharon Randall-Smith cynrychioli'r Prif Swyddog, Plant a Phobl Ifanc

## Gwybodaeth Gyhoeddus

**Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau**
Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

**Edrych ar y cyfarfod ar-lein**
Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg**
Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Ein Pwrpas

- i ddod yn sir ddi-garbon, gan gefnogi lles, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam o'u bywydau.

## Amcanion rydym yn gweithio tuag atynt

- Lle teg i fyw lle mae effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi'u lleihau;
- Lle gwyrdd i fyw a gweithio gyda llai o allyriadau carbon a gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur;
- Lle ffyniannus ac uchelgeisiol, lle mae canol trefi bywiog a lle gall busnesau dyfu a datblygu;
- Lle diogel i fyw lle mae gan bobl gartref maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo;
- Lle cysylltiedig lle mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi;
- Lle dysgu lle mae pawb yn cael cyfle i gyrraedd eu potensial.

## Ein Gwerthoedd

**Bod yn agored**. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

**Tegwch**. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

**Hyblygrwydd**. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Gwaith Tîm**. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatryswyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

**Caredigrwydd** – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.